

Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004
Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru)
2005 (Rheoliad 22) (fel y'i diwygiwyd)
**Hysbysiad o Gyflwyno Cynllun Datblygu Lleol i Lywodraeth Cymru
Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026**

Mae Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn wedi cyflwyno'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd i Lywodraeth Cymru er mwyn ei archwilio'n gyhoeddus. Os, a phryd caiff y Cynllun ei fabwysiadu bydd yn gynllun datblygu ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn a bydd yn sail ar gyfer penderfyniadau ar gynllunio defnydd tir yn yr ardal honno.

Bydd copïau caled o'r fersiwn Adnau o'r CDLI ar y Cyd, Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd (yn cynnwys Adroddiad Amgylcheddol), Adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, y Gofrestr o Newidiadau â Ffocws, y Cytundeb Cyflawni, Adroddiad Ymgynghori, Adroddiad Crynodeb o'r Sylwadau ar gael i'w gweld yn ystod oriau agor arferol yn y lleoedd canlynol:

Swyddfa'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, Llawr Iaf Swyddfeydd Cyngor Dinas Bangor, Ffordd Gwynedd, Bangor
Swyddfa'r Gwasanaeth Cynllunio, Cyngor Sir Ynys Môn, Llangefni
Siop Gwynedd yng Nghaernarfon, Dolgellau a Phwllheli
Llyfrgelloedd cyhoeddus yn Ynys Môn a Gwynedd

Mae copïau o'r dogfennau uchod a dogfennau ategol (sy'n cynnwys Papurau Testun a Phapurau Cefndir) i'w gweld ar wefan y ddau Gyngor yn www.gwynedd.llyw.cymru/cdll a www.ynysmon.gov.uk/cdll; yn Swyddfa'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, Llawr Iaf Swyddfeydd Cyngor Dinas Bangor, Ffordd Gwynedd, Bangor; ac yn Llyfrgell yr Archwiliad, Swyddfa Cyngor Gwynedd, Stryd y Castell, Caernarfon LL55 1SH (trwy apwyntiad yn unig 01286 679411 swyddogrhaglen@gwynedd.gov.uk)

Bydd Arolygydd annibynnol yn cynnal archwiliad i benderfynu a yw'r Cynllun yn gadarn ai peidio. Dim ond y sawl sydd wedi gwneud sylwadau i newid y Cynllun Adnau (h.y. gwrthwynebwyr) ac y mae'r sylwadau wedi eu cyflwyno 'yn y modd cywir' (h.y. yn unol â hysbysiadau cynharach) sydd â'r hawl i gael gwrandawriad ger bron yr Arolygydd yn yr Archwiliad Cyhoeddus (Adran 64 (6) o Ddeddf 2004).

Caiff hysbysiad ei roi o leiaf chwe wythnos cyn dechrau'r Archwiliad. Yr Arolygydd fydd yn penderfynu ar ffurf y gwrandawriad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan: Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, Llawr Iaf Swyddfeydd Cyngor Dinas Bangor, Ffordd Gwynedd, Bangor LL57 1DT ☎ 01286 685003/ 01286 679668 neu polisicynllunio@gwynedd.gov.uk

Dafydd Williams, Pennaeth Adran Rheoleiddio, Cyngor Gwynedd	Jim Woodcock, Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Cyngor Sir Ynys Môn
---	---